Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd

Gorffennaf 2014

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd

Rhagair

Ym mis Rhagfyr 2012, sefydlais y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd a fyddai'n gweithredu o dan gadeiryddiaeth Elin Rhys, Rheolwr Gyfarwyddwr Telesgop, Abertawe.

Sefydlais y Grŵp i edrych ar y berthynas rhwng y Gymraeg a datblygu economaidd ac i sicrhau bod y berthynas honno'n un gadarnhaol drwy argymell ffyrdd ymarferol o gyflawni hynny.

Cyhoeddais Adroddiad y Grŵp ar 21 Chwefror yn ogystal â gwneud Datganiad Ysgrifenedig ar yr un diwrnod. Roeddwn yn falch bod yr Adroddiad a'i ganfyddiadau wedi cael cefnogaeth eang gan randdeiliaid.

Dylid llongyfarch y Grŵp ar ei adroddiad eang ac ystyriol a roddodd sawl peth inni yn Llywodraeth Cymru a'n partneriaid gnoi cil arno. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 27 o argymhellion. Er mwyn eu hystyried yn llawn, roedd angen imi edrych yn fanwl arnynt gyda Chadeirydd y Grŵp, cydweithwyr Gweinidogol a fy swyddogion.

Mae'n bleser gennyf ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion a dweud bod cryn dipyn o gynnydd wedi'i wneud eisoes. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar hynt y gwaith ar yr amryfal syniadau a'r prosiectau hyn.

Wrth ymateb i'r Adroddiad ar y Gymraeg a'r Economi, rwyf am gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud popeth yn ei gallu i greu'r amgylchedd gorau i sicrhau bod y Gymraeg a'r Economi yn ffynnu, a hynny er lles pawb. Mae ein hymateb i'r adolygiad hwn yn cydnabod y cysylltiad rhwng meithrin twf economaidd, darparu swyddi, creu cyfoeth, a lles yr iaith Gymraeg. Bydd hefyd yn ysgogi ffordd well o roi cymorth i fusnesau fanteisio ar y cysylltiadau hynny.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Elin Rhys ac aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen am baratoi adroddiad mor fanwl a roddodd lawer inni ei ystyried ac a gafodd gefnogaeth eang gan randdeiliaid.

Edwina Hart MBE, CStJ,AC

Y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Gorffennaf 2014

Cyflwyniad

1. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ystyried y berthynas rhwng y Gymraeg a datblygiad economaidd ac i sicrhau bod y berthynas honno'n un gadarnhaol drwy argymell ffyrdd ymarferol o gyflawni hynny.

2. Wrth ddewis aelodau'r Grŵp, penderfynwyd bod angen adlewyrchu amrywiaeth eang o arbenigedd a phrofiad, a gafodd eu meithrin yng Nghymru ac yn rhyngwladol, gan gynnwys profiad ym meysydd busnes a masnach, entrepreneuriaeth, polisïau cyhoeddus a'r ffordd y maent yn ymateb i sefyllfaoedd amlieithog.

3. Mae sawl aelod wedi bod yn gysylltiedig â gwaith grwpiau cynghori eraill ac wedi gwneud cyfraniadau clodwiw iddynt, yn arbennig i Gyngor Partneriaeth y Gymraeg, yr Adolygiad o Hygyrchedd Cyllid Sector Preifat i Fusnesau Cymru, Grŵp y Dinas-ranbarthau a'r Grŵp Cymunedau Cymraeg.

4. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys:

    - Elin Rhys, Rheolwr Gyfarwyddwr, TELESGOP (Cadeirydd)
    - Elin Pinnell, Partner, Capital Law
    - Yr Athro Dylan Jones Evans, Prifysgol Gorllewin Lloegr
    - Dr Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth
    - Dr Martin Rhisiart, Prifysgol De Cymru
    - Alun Shurmer, Dŵr Cymru

5. Nid oedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn rhan o Lywodraeth Cymru, a gofynnwyd iddo:

    - Adolygu canlyniadau Datblygu Economaidd a'r Iaith Gymraeg: Rhaglen Waith, a gyhoeddwyd yn 2004;
    - Ystyried ac argymell ffyrdd y gallai defnyddio'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a hyrwyddo datblygiad economaidd;
    - Ystyried ac argymell ffyrdd y gallai datblygu economaidd helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg;
    - Ystyried ac argymell ffyrdd y gallai'r sector cyhoeddus helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei ddylanwad economaidd yn lleol, gan gynnwys polisïau caffael a chyflogaeth;
    - Defnyddio data am y farchnad lafur i nodi tueddiadau cyflogaeth a chyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg yn economi Cymru;
    - Ystyried ac amlygu enghreifftiau o'r arferion gorau ar gyfer cyflogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg;
    - Argymell strwythur llywodraethu ar gyfer datblygu, gweithredu a monitro strategaeth a chynllun gwaith ar gyfer y dyfodol, a fyddai'n hyrwyddo datblygu economaidd a'r Gymraeg.

6. Cyflwynodd y Grŵp ei adroddiad i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror eleni. Roedd ymgysylltu go iawn ac ystyrlon yn sail i'r adroddiad, a hwyluswyd hynny

drwy wneud Cais am Dystiolaeth. Derbyniwyd 32 ymateb yn sgil hynny. Daeth yr ymatebion hynny oddi wrth fusnesau, grwpiau sy'n cynrychioli'r Gymraeg a busnesau, ac unigolion.

7. Ar ben hynny, gwahoddwyd sawl siaradwr arbenigol i gyfrannu, a hynny drwy rhoi tystiolaeth ar lafar mewn cyfarfodydd.

8. Ochr yn ochr â gwaith y Grŵp hwn, roedd nifer o grwpiau eraill yn ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a/neu ddatblygu economaidd. Gwnaed cysylltiadau priodol gyda'r grwpiau hyn a oedd yn cynnwys y grwpiau a oedd yn adolygu'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ac yn adolygu'r ddarpariaeth Cymraeg fel Ail Iaith, ac yn ystyried Cymunedau Cymraeg a'r Eisteddfod Genedlaethol, a gafodd eu sefydlu gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd.

9. Yn y ffordd hon, bu'r Grŵp mewn cysylltiad â rhanddeiliaid drwy gydol y broses o lunio'r adroddiad. Mae copi llawn o'r adroddiad i'w weld yma: http://cymru.gov.uk/topics/businessandeconomy/policy/wled/?lang=cy

10. Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfanswm o 27 argymhelliad. Ym mhob achos, gwnaeth y Grŵp ei orau i adeiladu ar yr arferion da sy'n bodoli eisoes er mwyn llunio argymhellion realistig y gellid eu cyflawni a rhai a fyddai'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran yr iaith a'r economi.

11. O ran yr hyn y mae'r adroddiad yn ceisio ei gyfleu'n gyffredinol, mae'n cadarnhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o greu amgylchedd busnes sefydlog a ffafriol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith bod y Gymraeg yn fodd i gadarnhau hunaniaeth ein gwlad, sy'n rhan bwysig o ddatblygu brand Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

12. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd, a'i argymhellion eang. Mae wedi rhoi sawl peth i'r Llywodraeth gnoi cil arno.

13. Mae llawer o'r argymhellion sydd wedi'u targedu at Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu agenda traws-lywodraethol sy'n cynnwys materion sy'n berthnasol i bortffolios llawer o'r Gweinidogion.

14. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael eisoes â rhai o argymhellion yr adroddiad, a bydd yn rhoi'r rhai eraill ar waith ar unwaith. Bydd gofynion rhai o'r argymhellion yn golygu gwaith dros y tymor hir. Mae'r adran ganlynol yn rhoi mwy o fanylion am ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd. Mae'n nodi sut mae'r syniadau a'r prosiectau amrywiol yn mynd rhagddynt. Mae'r ymatebion wedi eu grwpio fesul thema i wella'r modd y cyflwynir yr adroddiad.

Arf marchnata

Argymhelliad 1
Mae dwyieithrwydd a gwerthfawrogiad o ddiwylliannau gwahanol yn rhan bwysig o strategaethau marchnata busnesau llwyddiannus ar draws y byd, sy'n cryfhau brandiau cwmnïau ac yn eu gwneud yn fwy perthnasol i gwsmeriaid lleol. Mae'r Grŵp yn argymell strategaeth i annog a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel erfyn marchnata ac i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i fusnesau.

Argymhelliad 2
I adeiladu ar y defnydd cynyddol o'r Gymraeg at ddibenion hyrwyddo, brandio a marchnata ac i gryfhau'r hunaniaeth Gymreig yn y gymuned ryngwladol ehangach, mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried cymell cwmnïau drwy ddefnyddio cyllid priodol o Ewrop a Llywodraeth Cymru i annog datblygiadau pellach i'r cyfeiriad hwn.

Argymhelliad 3
Mae'r Grŵp yn argymell bod busnesau'n cael eu hannog i ddefnyddio'r parth ".cymru" ar y rhyngrwyd pan fydd y cyfle'n codi.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod marchnata yn elfen bwysig o redeg busnes llwyddiannus a'i fod yn chwarae rôl allweddol mewn economi sy'n tyfu.

Wrth ddatblygu strategaethau marchnata, credwn na ddylid ystyried y Gymraeg yn rhwystr nac yn faich y mae'n rhaid i fusnesau ei ysgwyddo, ond yn hytrach yn fantais ychwanegol a fydd yn eu helpu i achub y blaen ar eu cystadleuwyr, yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae gan Gymru gyfoeth heb ei ail o asedau diwylliannol, yn rhai y gellir ac na ellir eu dirnad, ac mae'r iaith Gymraeg ei hun ar frig y rhestr honno. Drwy gysylltu â chleientiaid drwy gyfrwng eu hiaith eu hunain, mae busnesau yn fwy tebygol o feithrin cysylltiadau cadarn, ac mewn byd lle y mae dwyieithrwydd yn ffenomen gyffredin, mae'r defnydd o'r Gymraeg yn gallu ychwanegu at hunaniaeth Gymreig cynhyrchion neu wasanaethau.

Mae rhai o'r bwydydd a'r diodydd gorau yn y byd yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru. Mae cynhwysion o ansawdd uchel, bwyd a diod unigryw a mannau diddorol i fwyta ynddynt yn gynyddol bwysig i ymwelwyr. Mae cryn dipyn o bwyslais wedi'i roi ar ddatblygu cynhyrchion sy'n unigryw i Gymru er mwyn ysgogi mwy o fudd economaidd drwy gryfhau cadwyni cyflenwi lleol a busnesau twristiaeth. Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n fwyfwy i ychwanegu at y nodweddion unigryw hyn.

Mewn rhai achosion, rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid newid ymddygiad, a byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i annog busnesau i ddod yn fwy a mwy dwyieithog. Er enghraifft, mae cyfres o ddigwyddiadau i annog busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnal ledled Cymru drwy gydol mis Gorffennaf.

Rydym yn cydnabod y bydd codi proffil brand Cymru ar-lein yn arwain at nifer o ganlyniadau y bydd pob sector yng Nghymru yn gallu elwa arnynt. Drwy sicrhau enwau parth dwyieithog, rydym hefyd yn gallu hyrwyddo ac annog y Gymraeg

ar-lein. Byddwn yn cymryd yr awenau o ran trosglwyddo i '.cymru' a '.wales', ac rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo ei ddefnydd ar draws y gymuned fusnes yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru:

- **Yn treialu cyfres o gymorthfeydd yn Nyffryn Teifi sydd â'r nod o helpu busnesau i wneud y defnydd gorau posibl o'r iaith i gefnogi eu gweithgareddau.**
- **Yn treialu Cronfa Cymorth â'r Gymraeg i Fusnesau Bach a Chanolig gyda busnesau o'r fath yn Nyffryn Teifi sy'n dymuno manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r Gymraeg yn eu cynnig i'w busnes.**
- **Yn ymchwilio i gamau y gellir eu cymryd yn y dyfodol i hybu'r economi a'r defnydd o'r Gymraeg.**
- **Yn hyrwyddo'r defnydd o '.cymru' a '.wales' i fusnesau**

Sgil ychwanegol

Argymhelliad 4
Mae dwyieithrwydd wedi cael effaith bositif o ran annog twf sector y cyfryngau digidol a diwydiant cyfieithu proffesiynol, sy'n gwasanaethu'r farchnad Cymraeg/Saesneg yn bennaf. Mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried sut y gellid defnyddio'r sylfaen sgiliau dwyieithog sy'n deillio o hyn mewn marchnadoedd cyfredol ac i ddatblygu marchnadoedd newydd.

Argymhelliad 5
Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu bod galw am weithlu dwyieithog i fodloni anghenion busnesau a chwsmeriaid. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy ddatblygu'r sgiliau ieithyddol a'r hyder i fodloni gofynion busnesau. I gyflawni hyn, mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried ehangu'r defnydd o'r ymyriadau presennol megis model y Brocer Iaith.

Argymhelliad 6
Mae'r Grŵp yn argymell y dylai fod rhagor o adnoddau i hyrwyddo arloesi, mentergarwch a gyrfaoedd posibl mewn busnes ymhlith myfyrwyr a phobl ifanc Cymraeg, ac y dylid ystyried yn benodol ehangu Llwyddo'n Lleol i fwy o ardaloedd.

Argymhelliad 7
Mae'r Grŵp yn argymell y dylid mynd ati'n rhagweithiol i roi cyfle i fusnesau ddewis darpariaeth Gymraeg yn y rhaglenni hyfforddiant a sgiliau presennol a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer pobl ifanc, ee Go Wales, Twf Swyddi Cymru a chanolfannau Entrepreneuriaeth.

Thema a gododd dro ar ôl tro yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac yn y Gynhadledd Fawr oedd yr angen i gynyddu gwerth y Gymraeg fel sgil yn y gweithle. Er bod y cynnydd yn nifer y rheini sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhywbeth positif, nid yw sicrhau bod mwy o werth yn cael ei roi ar y Gymraeg fel sgil yn y gweithle yn rhywbeth y gellir ei gyflawni'n hawdd oherwydd nid yw'r cynnydd hwnnw'n cyfateb i'r nifer sy'n defnyddio'r iaith. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol, gan gynnwys darparu gwasanaethau i gwsmeriaid, yn ddyhead sydd wedi'i nodi eisoes ym mholisi iaith Llywodraeth Cymru.

Cydnabyddir bod datblygu sgiliau ieithyddol a chodi hyder yn rhan allweddol o normaleiddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd economaidd ac o'i defnyddio'n ehangach wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd. Daeth tystiolaeth i law a ddangosodd fod gan fusnesau gryn dipyn o ddiddordeb mewn cael staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn gweithio iddynt.

Ar ben hynny, cyflwynodd y Grŵp nifer o astudiaethau achos am fusnesau a oedd wedi mynd ati'n llwyddiannus i ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes. Mae gwerth hyrwyddwyr a modelau rôl i hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei gydnabod.

Yn y cyd-destun hwn, roedd y Grŵp yn ymwybodol ac yn werthfawrogol o Syniadau Mawr Cymru, sef yr ymgyrch gyfathrebu a reolir gan Lywodraeth Cymru ac sydd â'r nod o annog pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau entrepreneuraidd. Roedd y Grŵp hefyd yn ymwybodol o amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael a all, o bosibl, ymateb i'r materion a godwyd yn yr amryfal ymatebion.

Canolbwyntiodd y Grŵp ar y ddarpariaeth sydd ar gael yn Gymraeg o ran gwasanaethau cymorth a hyfforddiant i fusnesau. Er bod llawer o'r cymorth hwn yn ei le eisoes, cydnabyddir nad yw nifer y rheini sy'n manteisio ar y ddarpariaeth Gymraeg yn uchel, ac y dylid ystyried sut mae modd ysgogi mwy o alw amdani a sut mae datblygu ffyrdd eraill o wneud hynny.

Mae'r heriau o ran datblygu diwylliant busnes sydd o blaid y Gymraeg yn sylweddol. Mae technoleg yn tra-arglwyddiaethu ar ein bywydau yn fwy nag erioed. Yn y byd busnes, mae gwasanaethau trafodol yn creu galw na ellir ei ddiwallu am systemau sy'n gallu trosglwyddo gwybodaeth, a data, yn electronig. Mae'r galw hwnnw wedi datblygu ymhellach i ddisgwyl bod technoleg yn gallu ateb y galw am wasanaethau llais a phrosesau awtomatig. Mae hyn yn awgrymu bod angen defnyddio'r iaith ar lwyfan technolegol uwch fyth.

Bydd Llywodraeth Cymru:

- **Yn adolygu ymgyrch farchnata Busnes Cymru ar gyfer 2014-15 i gynnwys mwy o weithgareddau ymgyrchu â'r nod penodol o hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg.**
- **Yn cymryd camau amrywiol i sicrhau bod y system dysgu ac addysgu Cymraeg yn cydnabod bod angen sicrhau bod unigolion yn gallu defnyddio'r iaith yn hyderus.**
- **Yn ystyried sut gellid manteisio ar Syniadau Mawr Cymru a gweithgarwch cysylltiedig er mwyn sicrhau bod "hyrwyddwyr" a modelau rôl yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau i hybu defnydd o'r Gymraeg mewn busnes ac annog pobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg i feithrin arloesedd ac entrepreneuriaeth.**
- **Yn cydweithio â sefydliadau masnachol ac academaidd i hwyluso datblygiad adnoddau iaith digidol newydd, megis geiriaduron, offerynnau dadansoddi testun, technolegau lleferydd ac offerynnau cyfieithu.**
- **Fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau, yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod darpariaeth ar gael yn Gymraeg yn ogystal â hybu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Yn yr adroddiad diweddar ar anghenion sgiliau iaith Gymraeg ar draws sectorau economaidd allweddol, tynnwyd sylw at y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg yn y gweithle ac mewn hyfforddiant ac addysg alwedigaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn treulio mwy o amser yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwnnw, a sut gellir defnyddio'r wybodaeth honno wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu Sgiliau.**
- **Sicrhau bod dimensiwn Cymraeg cadarn yn ein holl raglenni ar gyfer hyrwyddo sgiliau.**

- **Gweithio gyda darparwyr allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ran Llywodraeth Cymru i ysgogi hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Pŵer rhwydweithiau

Argymhelliad 8
Mae'r Grŵp yn argymell y dylid ffurfio clystyrau a rhwydweithiau o fusnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg.

Argymhelliad 9
Mae'r Grŵp yn argymell bod adnoddau'n cael eu darparu i sefydlu rhwydweithiau ar-lein a fydd yn cynnal cysylltiad â siaradwyr Cymraeg sy'n gadael Cymru i astudio neu i weithio. Bydd y rhwydweithiau hyn yn fodd i annog siaradwyr Cymraeg profiadol i ddychwelyd i Gymru ac yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Ceir sawl enghraifft o grwpiau a chlystyrau busnes llwyddiannus sy'n bodoli i ddarparu fforymau a all helpu i rannu gwybodaeth, hyrwyddo arferion da a chydweithio rhwng busnesau. Mewn rhai ardaloedd, mae màs critigol digonol o fusnesau a phobl fusnes i gefnogi grwpiau sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw ymyrryd yn uniongyrchol mewn ffurfio grwpiau fel hyn ond bydd yn ystyried sut gallwn feithrin perthynas gadarnhaol rhwng busnesau a'r Gymraeg drwy gyfrwng grwpiau o'r fath.

Mae llawer wedi'i ysgrifennu am hyfywedd y Gymraeg mewn cymunedau lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw, yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau Cyfrifiad 2011. Mae cefnogi'r cymunedau hynny yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru, ac felly hefyd hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu. Fel sy'n digwydd yn gyffredinol, nid oes unrhyw amheuaeth bod y sefyllfa economaidd, ac yn enwedig nifer y swyddi sydd ar gael, yn ffactor bwysig sy'n dylanwadu ar siaradwyr Cymraeg i symud o'u cymunedau ac, yn wir, o Gymru. Mae llawer o'r rhain yn ddarpar arweinwyr cymunedol a busnes sy'n gallu gwneud byd o wahaniaeth i gymunedau Cymru.

Ochr yn ochr â'n gweithgareddau i annog busnesau i fewnfuddsoddi, mae'n bwysig ein bod yn gwneud ein gorau glas i ddod o hyd i unigolion o'r fath sy'n byw y tu allan i Gymru a cheisio elwa ar eu sgiliau a'u gallu. Dylid gwneud hynny drwy ddefnyddio dulliau marchnata addas, yn ogystal â chyfryngau electronig a rhwydweithiau cymdeithasol priodol, i'w hannog i adleoli i Gymru a/neu gyfrannu at ddatblygiad economaidd Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru:

- **Wrth atgyfnerthu gwaith y Mentrau Iaith, yn edrych ar eu rôl bosibl yn y broses o sefydlu a meithrin rhwydweithiau busnes lleol sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, a chysylltu'r rhwydweithiau hynny i sicrhau cysondeb o ran rhannu gwybodaeth ac arferion da.**
- **Yn ceisio cydweithio â sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a defnyddio ffynonellau gwybodaeth posibl eraill i edrych am ffordd a allai helpu i sefydlu a datblygu adnodd a fydd yn fodd i gyfnewid gwybodaeth**

am y rheini sy'n chwilio am waith yng Nghymru ac am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

- **Yn ystyried a oes gan weithgareddau sy'n hyrwyddo masnach a buddsoddiad rôl bosibl i'w chwarae o ran hyrwyddo'r cyfleoedd y mae Cymru yn eu cynnig i'r Cymry ar wasgar.**

Rôl cyrff iaith

Argymhelliad 10
Mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried swyddogaethau perthnasol Menter a Busnes a'r Mentrau Iaith gyda golwg ar roi cyfrifoldebau datblygu economaidd i'r Mentrau Iaith.

Argymhelliad 11
Mae'r Grŵp yn argymell y dylai Cymru ddysgu oddi wrth brofiad ac arfer da mewn cymunedau dwyieithog eraill fel gwlad y Basg, Quebec a Chatalwnia.

Mae Menter Iaith yn sefydliad lleol sy'n helpu cymunedau i gynyddu a datblygu eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'n cynnig cyngor a chymorth i unigolion, sefydliadau a busnesau, ac yn trefnu gweithgareddau i godi proffil y Gymraeg. Mae gweithgareddau'r Mentrau yn amrywio o ardal i ardal gan adlewyrchu proffil demograffig siaradwyr Cymraeg a phroffil yr economi leol.

Cafwyd cryn dipyn o drafodaeth am ddyfodol y Mentrau Iaith yn y ddogfen bolisi ddrafft *"Iaith fyw: iaith byw – symud ymlaen".* Roedd rôl y Mentrau o ran cynorthwyo datblygiad economaidd yn rhan o'r drafodaeth honno. Nodwyd hefyd yn y ddogfen honno yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan y Mentrau Iaith yn gyfnewid am ein cyllid.

Cydnabyddir bod gwersi gan Gymru i'w dysgu o fannau eraill, ac mae'n bosibl y gall Cymru addysgu eraill hefyd. Mae argymhelliad y Grŵp wedi'i nodi a chaiff ei ystyried yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru:

- **Yn edrych ar rôl bosibl y Mentrau Iaith o ran cyfeirio ymholiadau i Busnes Cymru.**
- **Yn cynnal deialog gyda'r Mentrau Iaith sy'n adlewyrchu'r prosiectau peilot yn Nyffryn Teifi, a'r mentrau a amlinellir yn "*laith fyw: iaith byw – symud ymlaen"*, i nodi sut gallent gyfrannu at ddatblygiad yr economi.**
- **Yn ystyried lle y gall ddysgu o arferion da mewn perthynas ag ateb anghenion datblygu economaidd cenhedloedd a rhanbarthau dwyieithog neu'r rheini sydd â chyfran sylweddol o'u poblogaeth yn siarad iaith leiafrifol.**
- **Yn lobïo a gweithio gyda rhwydweithiau rhyngwladol perthnasol i ganfod y datblygiadau diweddaraf mewn mannau eraill, gan roi pwysau ar gorfforaethau rhyngwladol i wneud darpariaeth ar gyfer y Gymraeg ac ieithoedd eraill llai eu defnydd.**

Y diwydiannau creadigol

Argymhelliad 12
Yn y blynyddoedd diweddar, mae diwydiant y cyfryngau darlledu Cymraeg wedi dirywio. Mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried asesu effaith ieithyddol ac economaidd y newid hwn, a'r canlyniadau ar gyfer cyflogaeth yn y sector hwn yn y dyfodol. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o gefnogi cynhyrchwyr cynnwys yng Nghymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y farchnad ehangach ar gyfer cynhyrchu cynnwys digidol.

Mewn oes lle y defnyddir mwy a mwy o sianeli a phlatfformau, bu newid sylweddol yn y ffordd y caiff y cyfryngau eu defnyddio, ac mae hynny wedi effeithio ar S4C, er enghraifft. Mae'r sianel wedi wynebu sawl her ariannol, ac mae hynny wedi arwain at nifer o newidiadau sydd, yn eu tro, wedi effeithio ar y ffordd y mae'n comisiynu cynnwys oddi wrth y sector cynhyrchu. Mae hyn wedi arwain at gyfuno'r sector cynhyrchu ac at rai gweithwyr yn colli eu swyddi.

Mae Panel Cynghori ar Ddarlledu Llywodraeth Cymru wedi ystyried y mater hwn a bydd yn parhau yn fater y gall y Panel ei ystyried yn y dyfodol, pe bai angen.

Fodd bynnag, nid yw'r darlun yn ddu i gyd gan fod posibilrwydd yn awr i fasnacheiddio prosiectau a allai, yn ôl eu natur, gael eu creu drwy gyfrwng sawl iaith (gan eu bod yn ddwyieithog eisoes) mewn marchnadoedd rhyngwladol. Drwy ei Chronfa Ddigidol (SDML – S4C Digital Media Limited), mae S4C wedi nodi'r posibilrwydd hwn ar gyfer llawer o'r prosiectau y mae wedi ei chefnogi, rhai ohonynt ar y cyd â Chronfa Datblygu Digidol y Llywodraeth. Yn yr un modd, mae dwy farchnad (Cymraeg a Saesneg) ar gyfer y cynnwys ac mae hynny yn arwain eisoes at fwy o waith i asiantaethau. Yn ystod y cyfnod ers cyflwyno argymhellion y Grŵp, mae S4C wedi penderfynu symud ei phencadlys i Gaerfyrddin ar sail y manteision economaidd ac ieithyddol a fydd yn dod i'r dref yn sgil hynny. Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi cydnabod y gallai'r datblygiad hwn roi hwb sylweddol i'r Gymraeg a'r economi, ac i'r diwydiannau creadigol yn y rhanbarth. Mae'n ystyried, ar hyn o bryd, amrywiaeth o brosiectau y dylid eu blaenoriaethu oherwydd eu potensial i gyflawni newidiadau sylweddol.

Rydym wedi meithrin perthynas waith agos â thîm y Cyfryngau Digidol Cymraeg er mwyn hyrwyddo a nodi amcanion cyffredin i ddatblygu cynnyrch Cymraeg ymhellach. Mae anogaeth i gynhyrchwyr cynnwys Cymraeg fynd â'u cynhyrchion i farchnadoedd rhyngwladol drwy ddigwyddiadau megis y Gynhadledd i Ddatblygwyr Gemau.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi pwy fydd yn derbyn cyllid o dan y cynllun Grant Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg. Yn ystod ail flwyddyn y cynllun hwn, bydd naw cwmni yn rhannu dros £185,000 i ddarparu gweithgareddau sydd â'r nod o hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg drwy dechnoleg a'r cyfryngau digidol.

Mae nifer o'r gweithgareddau yn cynnwys ffurfio rhwydweithiau digidol. Credwn y bydd y rhwydweithiau hyn yn gyfryngau pwerus i hyrwyddo'r Gymraeg ym mywyd

bob dydd, yn enwedig ymhlith y bobl ifanc a fydd yn y pen draw yn ymuno â'r gweithlu ac yn mynd â'u sgiliau Cymraeg gyda hwy.

Mae sicrhau bod technoleg Gymraeg wrth law a bod Cymru ar flaen y gad o ran datblygu technoleg newydd yn allweddol i normaleiddio ei defnydd. Gwelwn y bydd gan y diwydiannau yn y sector creadigol a digidol rôl hollbwysig i'w chwarae o ran datblygu technolegau arloesol yn y maes hwn. Bydd y rownd ariannu ar gyfer 2015-16 yn agor ddechrau 2015 a gobeithiwn y bydd y ceisiadau yn parhau i fod o safon uchel.

Bydd Llywodraeth Cymru:

- **Yn parhau i fonitro newidiadau yn strwythur y diwydiant cynhyrchu cynnwys, a chanlyniadau'r newidiadau hynny.**
- **Yn parhau i feithrin arloesedd mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg drwy gyfrwng y cynllun Grant Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg.**
- **Yn gweithio gyda Dinas-ranbarth Bae Abertawe i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o ganlyniad i adleoli S4C i Gaerfyrddin.**

Dulliau sy’n seiliedig ar ardaloedd

Argymhelliad 13
Mae'r Grŵp yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r bygythiadau a'r cyfleoedd ar gyfer yr iaith mewn dinasoedd ac ardaloedd trefol o ran datblygu economaidd, gyda golwg ar ddarparu ymatebion polisi addas.

Argymhelliad 14
Mae'r Grŵp yn argymell y dylid gweithredu ar y cyd ar ddatblygu economaidd a'r iaith drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol. Byddai hynny’n fodd i ddynodi "parthau iaith economaidd arbennig".

Argymhelliad 15
Gan gydnabod llwyddiant ymddiriedolaethau datblygu cymunedol megis y Galeri, Caernarfon (Cwmni Tref Caernarfon gynt) o ran cefnogi adfywio economaidd, mae'r Grŵp yn argymell y dylid ariannu prosiectau peilot mewn trefi yn Ardaloedd Menter Ynys Môn ac Eryri ac yn Nyffryn Teifi, a ger yr ardaloedd hynny.

Argymhelliad 16
Mae'r Grŵp yn argymell addasu'r model a ddarparwyd gan Gwmni Prentisiaeth Coleg Menai er mwyn darparu prentisiaethau Cymraeg mewn busnesau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

Rydym wedi ymgynghori â Byrddau Dinas-ranbarth Bae Abertawe a De-ddwyrain Cymru mewn perthynas â chanfyddiadau adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac mae'r ddau wedi ymateb yn gadarnhaol i'w gynnwys. Mewn ymateb i argymhelliad 13, byddwn hefyd yn gofyn iddynt nodi dulliau ymyrryd penodol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a'r economi yn eu rhanbarthau, ac yn gofyn am eu cymorth i'w gweithredu.

Mae argymhellion y Grŵp yn nodi'n glir y dylid gweithredu ar y cyd drwy ddatblygu "parthau iaith economaidd arbennig". Cynigwyd ardaloedd penodol, megis Bangor, Aberystwyth, Caerfyrddin a'u cyffiniau fel lleoliadau lle y gellid mabwysiadu dull o’r fath i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd o ran yr iaith yn yr ardaloedd hynny. Mae cynigion wedi’u llunio ar gyfer y tri anheddiad gweddol fawr hyn yn y gobaith y byddant yn darparu mwy o gyfleoedd i'r iaith ffynnu mewn ffyrdd gwahanol. Byddwn yn monitro effeithiau'r cynigion hyn ar weithgarwch economaidd Cymraeg ac yn ystyried sut y gellid hwyluso datblygiadau cadarnhaol pellach.

Bydd profiad o raglenni llwyddiannus a gyflawnwyd gan Galeri Caernarfon, er enghraifft, yn ogystal â phrofiad o brosiectau peilot yn Nyffryn Teifi, yn cael eu gwerthuso ac yn llywio camau pellach i ddatblygu a gweithredu dulliau sy'n seiliedig ar ardaloedd. Ystyrir hyn yng nghyd-destun cynlluniau adfywio megis y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, sydd ar hyn o bryd, yn cefnogi prosiectau yng Nghaergybi a Bae Colwyn, ymhlith trefi eraill.

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog er mwyn cynyddu'r galw amdanynt. Mae model Cwmni Prentisiaeth Coleg Menai yn ffurf ar brentisiaeth ar y cyd a grëwyd mewn ymateb i

ysgogi datblygiad economaidd yn y rhanbarth. Mae'r model yn mynd ati'n effeithiol i gael gwared ar rwystrau sy'n llesteirio cwmnïau ac mae'r hyblygrwydd hwn yn annog busnesau i ystyried prentisiaethau. Mae ei leoliad daearyddol a'r cwmnïau sy'n rhan ohono wedi ei alluogi i fod ar gael yn Gymraeg.

Ystyrir datblygu modelau prentisiaeth newydd ar y cyd ar gyfer Ardaloedd Menter. Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer Cynllun Prentisiaeth ar y Cyd a bydd Coleg Cambria, mewn cydweithrediad ag Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, yn ei weithredu ym mis Medi 2014. Bydd Gweithgynhyrchu Uwch yn rhan o'r cynllun a fydd yn cael ei dargedu at fusnesau bach a chanolig. Ar ben hynny, bydd anogaeth yn cael ei roi i ddarparu'r cynllun hwn ac unrhyw gynlluniau yn y dyfodol drwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo hynny'n briodol.

Bydd Llywodraeth Cymru:

- **Yn gofyn i'r byrddau sy'n goruchwylio'r ddwy Ddinas-ranbarth i nodi'r dulliau ymyrryd penodol a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a'r economi yn eu rhanbarthau.**
- **Yn gwerthuso tystiolaeth o'r ardaloedd penodol hynny lle mae datblygiad economaidd a rhaglenni adfywio wedi elwa ar gysylltiad cadarn â'r Gymraeg.**
- **Yn gwerthuso canlyniadau prosiectau peilot yn Nyffryn Teifi er mwyn nodi arferion da.**
- **Yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i ddarparu prentisiaethau dwyieithog a chynyddu'r galw am ddarpariaeth Gymraeg.**

Seilwaith

Argymhelliad 17
Mae'r Grŵp yn argymell y dylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth wrth gyflwyno'r rhaglen Band Eang Cyflym Iawn yn y dyfodol agos fel bod y busnesau hynny yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith fel Dyffryn Teifi yn gallu mwynhau'r manteision sydd ar gael mewn ardaloedd yng ngogledd orllewin Cymru ar hyn o bryd.

Argymhelliad 18
Mae'r Grŵp yn argymell y dylid cynnal ymchwil i archwilio effaith gwella'r rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd a'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n rhedeg rhwng yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith a'r canolfannau cyflogaeth ar hyd y prif goridorau.

Argymhelliad 19
Mae'r Grŵp yn argymell y dylid datblygu ymhellach rôl y cymdeithasau tai o ran hyrwyddo a hwyluso datblygu economaidd mewn cymunedau.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr adroddiad hwn wedi cydnabod y rôl hanfodol y mae telathrebu o ansawdd uchel yn ei chwarae o ran hyrwyddo'r Gymraeg. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd telathrebu o ansawdd uchel fel ffordd o hyrwyddo'r Gymraeg. Dylid cydnabod hefyd fod ei ddarparu mewn ardaloedd gwledig yn her aruthrol – pe bai'n broses haws, byddai'r sector preifat wedi mynd i'r afael â'r materion eisoes. O ganlyniad, bydd y gwaith hwn yn cymryd amser.

Ers cwblhau adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, mae mwy a mwy o fand eang ffeibr cyflym wedi'i ddarparu, gan gynnwys yn Nyffryn Teifi. Unwaith eto, y newyddion da yma yw bod y gwaith hwn wedi mynd rhagddo'n dda mewn mannau eraill o Gymru (150,000 o eiddo yn awr yn gallu cael mynediad i fand eang allan o gyfanswm o 690,000, gyda tharged o 450,000 erbyn diwedd mis Mawrth 2015).

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cryn dipyn o arian wedi'i wario ar y rhwydwaith cefnffyrdd, yn enwedig ar yr A470 a'r A487. Gwnaed cyhoeddiad yn ddiweddar am ffordd osgoi Caernarfon ar yr A487, a fydd yn sicrhau gwell cysylltiad â choridor yr A55, ac yn darparu gwell cyswllt rhwng de Gwynedd a chyfleoedd am swyddi, megis y rheini i'w darparu yn Wylfa Newydd. Mae hyn yn ategu'r cynigion i fuddsoddi ymhellach mewn gwella trafnidiaeth gyhoeddus.

Yn y Gynhadledd Fawr, cyflwynwyd tystiolaeth am yr effaith gadarnhaol y mae gwella ffyrdd yn ei chael ar y cyfleoedd am swyddi sydd ar gael i'r rheini sy'n siarad Cymraeg yn y Gogledd-orllewin. Bydd rhagor o ymchwil yn cael ei gwneud er mwyn ddeall y berthynas hon.

Rydym yn cytuno â'r argymhelliad y dylid datblygu ymhellach rôl y Cymdeithasau Tai o ran hyrwyddo a hwyluso datblygu economaidd mewn cymunedau. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi'r gwaith sy'n mynd rhagddo ym maes cynllunio am fod ganddo'r potensial i effeithio'n gadarnhaol ar y Gymraeg.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar Gynllunio a'r Gymraeg yn Nodyn Cyngor Technegol 20. Mae'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau

bod ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rhan o strategaeth, polisïau a dyraniadau safleoedd yn eu cynlluniau datblygu lleol. Cyhoeddir rhagor o ganllawiau technegol ar y broses honno yn fuan. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol a'r canllawiau ymarferol yn ategu'r polisi eang sy'n rhan o Bolisi Cynllunio Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru:

- **Yn parhau i ddarparu band eang cyflym mewn partneriaeth â'i bartner darparu, BT.**
- **Gan gyfeirio'n benodol at Ddyffryn Teifi, mae'r gwaith o adeiladu'r seilwaith ar gyfer band eang cyflym eisoes ar y gweill. Byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu datblygiad y prosiect yn yr ardal.**
- **Yn ymchwilio i'r cyswllt rhwng gwell cyfathrebu, cysylltedd â mynediad, y Gymraeg, a datblygu economaidd gyda golwg ar ddatblygu ymatebion newydd.**
- **Mewn perthynas ag ehangu rôl y Cymdeithasau Tai, yn sicrhau bod swyddogion yn gweithio gyda phawb sydd â diddordeb mewn cefnogi gwaith datblygu a gweithredu yn y dyfodol.**

Cymorth busnes

Argymhelliad 20
Mae'r dystiolaeth o'r adolygiad yn awgrymu bod gwahaniaeth rhwng mentrau bach a busnesau mwy o ran eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Grŵp yn argymell y dylai fod ystod o gymorth ymarferol ar gael i fentrau bach sy'n cydnabod bod manteision masnachol i'w cael o gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Nododd yr astudiaethau achos a nodwyd yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, mai cymorth ymarferol fyddai'n fwyaf gwerthfawr i fusnesau.

Cyhoeddom yn ddiweddar brosiect peilot Dyffryn Teifi fel ffordd o fynd i'r afael ar y cyd â rhai o'r argymhellion a godwyd yn adroddiad Ardaloedd Twf Lleol Dyffryn Teifi a'r rheini a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn.

Bydd y peilot yn treialu'r cysyniad o Gymorthfeydd ar y Gymraeg i Fusnesau a Chronfa Cymorth â'r Gymraeg i Fusnesau Bach a Chanolig.

Byddai'r Cymorthfeydd yn cynnig cymorth ar sut i ddarparu gwasanaethau sydd eisoes yn bod yn Gymraeg a sesiynau mwy penodol a fyddai'n hoelio sylw ar y potensial o fanteisio ar y Gymraeg er budd economaidd. Nod y cymorthfeydd fydd cefnogi busnesau i nodi cyfleoedd i wneud y defnydd gorau posibl o'r iaith, a hynny er lles eu busnes, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt fanteisio ar y Gronfa Cymorth â'r Gymraeg i Fusnesau Bach a Chanolig.

Gan ddibynnu ar nifer y busnesau a fydd yn defnyddio'r Cymorthfeydd ar y Gymraeg, bydd mynediad i'r Gronfa Cymorth â'r Gymraeg ar gael i'r busnesau bach a chanolig yn Nyffryn Teifi sy'n dymuno manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r Gymraeg yn eu cynnig i'w busnes. Mae enghreifftiau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddeunyddiau marchnata; brandio; arwyddion; gwerthiannau ar-lein drwy wefannau dwyieithog/Cymraeg.

Bydd Llywodraeth Cymru:

- **Yn adolygu'r gweithgareddau peilot sy'n digwydd yn Nyffryn Teifi.**

Caffael

Argymhelliad 21
Nid yw'r diffiniad o fanteision cymunedol sy'n deillio o'r broses gaffael bresennol yn y sector cyhoeddus yn cyfeirio at y manteision i'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Mae'r Grŵp yn argymell y dylid ehangu'r darpariaethau'n ymwneud â sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn cynnwys yr ystyriaethau hyn.

Argymhelliad 22
Mae'r Grŵp yn argymell, lle bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r rheini sy'n tendro ar gyfer contractau yn y sector cyhoeddus ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog, yn enwedig os yw'n cael ei ddarparu i'r cyhoedd.

Mae gan Sector Cyhoeddus Cymru fesurau yn eu lle eisoes i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried drwy gydol y broses gaffael. Yn ddiweddar, diwygiwyd y templedi Asesu Risg Cynaliadwy, a bellach maent yn cynnwys cwestiwn i sicrhau bod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu hystyried. Yn yr un modd, mae SQuID (Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr) yn cynnwys cwestiynau sy'n gofyn i ba raddau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac am allu ymgeiswyr i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Prif nodau ein polisi budd i'r gymuned yw targedu'r broses recriwtio a hyfforddiant, ynghyd â mentrau'r gadwyn gyflenwi gan greu dolen, felly, i'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae angen sicrhau bod y polisi yn parhau i hoelio sylw ar y nodau hyn. O dan y canllaw Budd i'r Gymuned a luniwyd gan Gwerth Cymru, gellir ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth yn faes sy'n gallu ychwanegu gwerth.

Mae angen i unrhyw ofynion o ran sgiliau Cymraeg fod yn gymesur â'r mater dan sylw, a bod yn berthnasol iddo – i raddau helaeth, natur y contract fydd yn pennu'r cyfleoedd a'r posibiliadau o ran gweithredu. Cyfrifoldeb yr awdurdodau contractio unigol yw gwneud y penderfyniadau gorau am y budd cymunedol y dymunant ei gynnwys yn eu contractau. Mae hynny yn dibynnu ar yr hyn y maent yn ei brynu a bydd angen egluro bod angen iddynt allu cyfiawnhau eu dulliau a'u blaenoriaethau yn unol â'u polisïau iaith eu hunain.

Bydd angen mabwysiadu ffordd gymesur a rhesymol o ystyried contractau i osgoi annhegwch o ran eithrio cyflenwyr llai a chwmnïau o'r trydydd sector rhag ceisio am waith oddi wrth sector cyhoeddus Cymru oherwydd gofynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Bydd Llywodraeth Cymru:

- **Wrth dderbyn, mewn egwyddor, argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn ystyried sut gellir eu cymhwyso'n ymarferol mewn ffordd briodol a chymesur.**
- **Dosbarthu'r canllawiau priodol i wasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru.**

Grantiau

Argymhelliad 23
Mae'r Grŵp yn argymell y dylai fod yn ofynnol i fusnesau sy'n cael grant gan Lywodraeth Cymru ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog. Dylai unrhyw arwyddion neu ddeunyddiau hysbysebu sy'n gysylltiedig â phrosiect sy'n derbyn cymorth grant fod yn ddwyieithog.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ac mae hynny hefyd yn berthnasol i'r ffordd y dyfernir grantiau. Pan ddyfernir grant i berson ar gyfer gweithgareddau penodol, rhaid iddo ymrwymo i sicrhau bod defnydd priodol yn cael ei wneud o'r ddwy iaith.

O ran datblygu a gweinyddu cynlluniau grant, mae'n ofynnol i swyddogion ystyried gofynion Cynllun Iaith y Llywodraeth, sydd wedi'i lywio'n benodol gan ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg.

Ni fydd yn ofynnol i bob gweithgarwch grant ddefnyddio iaith. Er enghraifft, pan fo grant yn cael ei ddefnyddio i brynu peiriant ar gyfer gweithwyr cwmni, nid oes unrhyw ofynion o ran iaith. Fodd bynnag, pan fo grant yn ariannu arwydd, er enghraifft, rhaid ystyried y gofynion o ran y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd llawer o grantiau yn cynnwys gweithgarwch lle bo defnyddio iaith yn ofynnol.

Mae safonau'r Gymraeg yn cael eu drafftio ar hyn o bryd o dan Fesur y Gymraeg 2011. Disgwylir i'r safonau fod yn gymwys i Lywodraeth Cymru, a hynny yn 2015 yn ei hachos hi. Byddant yn cynnwys safonau sy'n ymwneud â dyfarnu grantiau a fydd yn rhan o'r categori safonau darparu gwasanaethau.

Bydd Llywodraeth Cymru:

- **Yn ystyried argymhellion y Grŵp yng nghyd-destun adolygu'r canllawiau o ran dyfarnu grantiau neu gymorth ariannol tebyg arall.**
- **Yn cadw'r argymhellion mewn cof wrth iddi ddatblygu safonau yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.**

Data economaidd

Argymhelliad 24
Mae'r Grŵp yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n darparu adnoddau i gasglu tystiolaeth o effaith y Gymraeg ar yr economi a'r cysylltiadau rhyngddynt. Mae angen y dystiolaeth hon i argyhoeddi busnesau o fanteision gweithredu'n ddwyieithog.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o ran dehongli'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes am y cysylltiadau rhwng y Gymraeg a'r economi wedi mynd yn ei flaen yn dda.

Ers cyhoeddi adroddiad y Grŵp, mae'r adroddiad Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector wedi ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ganfyddiadau cyflogwyr o ran effaith defnyddio'r Gymraeg ar elw eu busnesau. Mae'r canfyddiadau hyn eisoes yn llywio'r ffordd y caiff polisïau a rhaglenni eu datblygu i helpu unigolion i sicrhau, wrth iddynt ddechrau mewn swydd, bod ganddynt y sgiliau Cymraeg y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt.

Bydd Arolwg Defnydd Iaith 2014-15, a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, yn rhoi tystiolaeth eang am ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

O gymharu â nifer y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth, mae tystiolaeth yn awgrymu bod nifer y bobl sy'n manteisio ar gymorth busnes drwy gyfrwng y Gymraeg yn is na'r disgwyl. Er enghraifft, roedd nifer y galwadau Cymraeg a wnaed i linell gymorth Busnes Cymru yn llai na 3% o'r holl alwadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae angen deall, felly, y rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg sy'n bodoli eisoes, a sut i sicrhau y bydd yn haws i bobl fanteisio ar y gwasanaethau hyn a gwasanaethau a fydd ar gael yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwaith ychwanegol i edrych ar y cysylltiadau rhwng y Gymraeg a'r economi, ac felly rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru

- **Yn comisiynu gwaith ymchwil i gael mwy o dystiolaeth am y cysylltiadau rhwng y Gymraeg a'r economi.**
- **Yn comisiynu gwaith ymchwil er mwyn deall:**
  - **y rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio'r gwasanaethau busnes Cymraeg sy'n bodoli eisoes;**
  - **sut i sicrhau y bydd yn haws i bobl fanteisio ar y gwasanaethau hyn a gwasanaethau a fydd ar gael yn y dyfodol.**

Trefn lywodraethol i'r dyfodol

Argymhelliad 25
Mae'r Grŵp yn argymell sefydlu panel annibynnol a fyddai'n rhoi cyngor i'r Gweinidog ar sut y gall y Gymraeg fanteisio ar ddatblygu economaidd a chyfrannu ato, gan adeiladu ar yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 26
Mae'r Grŵp yn cydnabod mai rôl Llywodraeth Cymru yw rhoi cefnogaeth ac arweiniad i fusnesau ar ddefnyddio'r Gymraeg a symleiddio'r broses, yn hytrach na'u gorfodi i'w defnyddio.

Argymhelliad 27
Mae'r Grŵp yn argymell bod y trefniadau presennol ar gyfer monitro materion cydraddoldeb yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cael eu hadolygu gyda golwg ar gyflwyno dull gweithredu mwy strategol ar gyfer delio â materion yn ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys y modd y mae'r Adran yn gweithio gyda busnesau.

Mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ar hyn o bryd, yn manteisio ar amrywiaeth o arbenigedd a phrofiad drwy nifer o grwpiau cynghori. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, yr Ardaloedd Menter a Byrddau Dinas-ranbarthau, Bwrdd Strategol Busnes Cymru a nifer o Banelau Sector.

Nid yw'r dasg benodol o edrych ar y Gymraeg yng nghyd-destun eu gwaith wedi'i rhoi i'r grwpiau cynghori hyn. Fodd bynnag, o ran Argymhelliad 25, mae gwaith ar y gweill eisoes i adolygu Cylch Gorchwyl pob grŵp cynghori sydd eisoes yn bod er mwyn nodi pa mor berthnasol fyddai cyflwyno swyddogaeth o'r fath. Gallai hyn gynnwys gofyniad i ystyried sut gall y Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a hyrwyddo datblygiad economaidd, a sut gall datblygiad economaidd hybu'r Gymraeg.

Lle bo'n berthnasol, bydd aelodau'r grwpiau cynghori hyn hefyd yn cael eu hadolygu a'u newid, o bosibl, i sicrhau bod gan y grwpiau y sgiliau a'r profiad perthnasol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n llwyddiannus o ran y gofyniad ychwanegol.

Yn ei adroddiad, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod yr heriau o ran y Gymraeg yn gymhleth. Ar ben hynny, mae'n nodi bod y gymuned fusnes, yn benodol, yn teimlo bod diffyg eglurder ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a'i bod yn ei chael yn anodd mynd i'r afael â hwy. Rydym yn cytuno ag argymhelliad y Grŵp mai rôl Llywodraeth Cymru yw helpu byd diwydiant i hybu'r Gymraeg yn y gweithle ac annog agwedd gadarnhaol at yr iaith. Mae'r ymatebion yn y ddogfen hon yn amlinellu'r camau cychwynnol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hynny.

Drwy ein swyddogion yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sy'n gweithio â busnesau, rydym yn cynnig cymorth drwy rannu arferion gorau a thynnu sylw perchnogion busnes at fanteision defnyddio'r Gymraeg yn eu busnesau. Caiff hyfforddiant mewnol ei adolygu, a'i addasu yn ôl yr angen, i atgoffa staff am eu cyfrifoldebau a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r dulliau diweddaraf sydd ar gael i

hwyluso a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg er mwyn eu rhannu'n eang â busnesau. Bydd y canllawiau ar y Safonau Iaith newydd hefyd yn rhan o'r hyfforddiant hwn.

Mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gweithio i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog a sicrhau bod pob ffurf ar gyfathrebu, yn ogystal â phob cyhoeddiad a gwefan, yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â pholisïau perthnasol y Llywodraeth. Mae gan yr Adran systemau eisoes i gasglu data sy'n ymwneud â dewis iaith unigolion a busnesau. Byddant yn cael eu hadolygu yn unol â gofynion disgwyliedig y Safonau Iaith newydd. O ran cysylltiad yr Adran â busnesau, bydd y camau a nodir mewn mannau eraill o'r ddogfen hon o ran y gwaith ymchwil a'r gweithgareddau cymorth i fusnesau sy'n digwydd ar hyn o bryd ac sydd yn yr arfaeth, yn llywio gwell dull strategol o fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg

Bydd Llywodraeth Cymru:

- **Lle bo'n briodol, yn adolygu cylch gorchwyl y grwpiau cynghori sydd eisoes yn bod i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried.**
- **Yn adolygu'r hyfforddiant mewnol sydd eisoes yn bod yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i sicrhau bod gan y staff y dulliau diweddaraf i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymhlith busnesau.**
- **Fel rhan o'r gwaith rheolaidd y mae'n ei wneud i fonitro materion yn ymwneud â chydraddoldeb, ac er mwyn datblygu dull strategol o weithredu, yn adolygu i ba raddau y defnyddir y Gymraeg yng nghyswllt gwasanaethau cymorth busnes.**